# Pecyn Dogfen Cyhoeddus

| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Aelodau'r Is-Bwyllgor Trwyddedu | Dyddiad: | 26 Mai 2017 |
| | | Rhif Union: | 01824 712568 |
| | | ebost: | democrataidd@sirddinbych.gov.uk |

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU, DYDD LLUN, 5 MEHEFIN 2017** am **10.30 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

**AGENDA**

**1 PENODI CADEIRYDD**

Penodi Cadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu yn y busnes a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**CAIS I'W YSTYRIED -**

**3 DEDDF TRWYDDEDU 2003: CAIS AR GYFER AMRYWIO TRWYDDED EIDDO - CORPORATION ARMS, 4 STRYD Y CASTELL, RHUTHUN** (Tudalennau 5 - 62)

Ystyried cais i amrywio Trwydded Eiddo a gyflwynwyd yn unol ag Adran 34 o Ddeddf Trwyddedu 2003 (amlinelliad o'r cais a phapurau cysylltiedig ynghlwm).

Nodwch y drefn i'w chymryd gan yr Is-Bwyllgor (sydd ynghlwm wrth y rhaglen hon).

**MEMBERSHIP**

**Y Cynghorwyr**

Alan James
Barry Mellor
Rhys Thomas

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

## IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

## Y DREFN AR GYFER CEISIADAU A WNEIR DAN Y DDEDDF TRWYDDEDU 2003

| Cam | Disgrifiad |
|---|---|
| 1. | Mae Cadeirydd yr Is-Bwyllgor Trwyddedu yn agor y Gwrandawiad ac yn croesawu pawb sy'n bresennol. Mae'n cyflwyno'r Cydweithwyr ar yr Is-Bwyllgor a'r Swyddogion sy'n Bresennol. |
| 2. | Mae'r Cadeirydd yn gwahodd y Swyddog Trwyddedu i gyflwyno'r Cais. |
| 3. | Mae'r Cadeirydd yn gwahodd yr Ymgeisydd (neu'r Cynrychiolydd Penodedig) i gyflwyno'r Cais. |
| 4. | Mae'r Cadeirydd yn gwahodd unrhyw Awdurdodau Cyfrifol (e.e. Heddlu, Gwasanaeth Tân) i gyflwyno eu sylwadau. |
| 5. | Mae'r Cadeirydd yn gwahodd Aelodau'r Is-Bwyllgor Trwyddedu i ofyn cwestiynau i'r Ymgeisydd neu'r Awdurdodau Cyfrifol. |
| 6. | Mae'r Cadeirydd yn gwahodd y Rhai â Diddordeb i gyflwyno eu sylwadau. |
| 7. | Mae'r Cadeirydd yn gwahodd Aelodau'r Is-Bwyllgor Trwyddedu i ofyn cwestiynau i'r Rhai â Diddordeb ac i egluro unrhyw bwyntiau gyda'r Ymgeisydd. |
| 8. | Mae'r Cadeirydd yn gwahodd yr Ymgeisydd (neu'r Cynrychiolydd Penodedig) i wneud datganiad terfynol. |
| 9. | Bydd Aelodau'r Is-Bwyllgor Trwyddedu yn ymneilltuo i ystyried eu penderfyniad, gyda'r Clerc i'r Gwrandawiad a'r Ymgynghorydd Cyfreithiol i'w canlyn. |
| 10. | Mae Aelodau'r Is-Bwyllgor Trwyddedu yn dychwelyd gyda'u penderfyniad ar y Cais, gyda rhesymau i'w gefnogi. |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Is-bwyllgor Trwyddedu |
| **DYDDIAD:** | 5 Mehefin 2017 |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Uwch Swyddog Technegol (Trwyddedu) 01824 706433 trwyddedu@sirddinbych.gov.uk |
| **TESTUN:** | **Deddf Trwyddedu 2003**<br>**Cais am Amrywio Trwydded Eiddo presennol**<br>**Corporation Arms, 4 Stryd y Castell, Rhuthun, LL15 1DA** |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi cael cais i Amrywio trwydded eiddo presennol, a gyflwynwyd yn unol ag Adran 34 Deddf Trwyddedu 2003, ar gyfer y Corporation Arms, 4 Ffordd y Castell, Rhuthun. O ganlyniad i'r ymgynghori angenrheidiol a'r Rhybudd Cyhoeddus gofynnol, mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi cael sylwadau perthnasol sy'n gwrthwynebu'r cais. Mae angen i'r Is-bwyllgor wneud penderfyniad ynglŷn â'r cais, gan ystyried yr holl ffeithiau/tystiolaeth berthnasol.

## 2. CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Mae hwn yn gais i Amrywio Trwydded Eiddo. Mae'r sylwadau sydd wedi eu derbyn yn ymwneud yn bennaf ag Atal Niwsans Cyhoeddus a Throsedd ac Anrhefn.

2.2 Atgoffir yr Aelodau bod yn rhaid i unrhyw benderfyniad a wneir fod yn unol â (i) Datganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor a (ii) Chanllawiau a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

2.3 Gan weithredu yn rhinwedd Awdurdod Trwyddedu, rhaid i Aelodau geisio hybu'r Amcanion Trwyddedu, ac os yw Aelodau'n ystyried bod materion yn gysylltiedig ag un neu fwy o amcanion, gallant arfer eu disgresiwn.

2.4 Atgoffir Aelodau'r Is-bwyllgor Trwyddedu na allant arfer eu disgresiwn mewn unrhyw achos, am eu bod yn ystyried bod hynny'n ddymunol, a

dylid rhoi rheswm (rhesymau) dros unrhyw benderfyniad a wneir, neu os penderfynir gwyro mewn unrhyw ffordd o'r Protocol, y Polisi neu'r Canllawiau.

## 3. ARGYMHELLION

### 3.1 Penderfyniad yr Is-Bwyllgor

Mae'n rhaid i'r Is-Bwyllgor, o ystyried y sylwadau a wneir, gymryd y fath gamau (isod) y maent yn eu hystyried yn angenrheidiol ar gyfer hyrwyddo'r amcanion trwyddedu:

Gall yr Is-bwyllgor:

- Gymeradwyo'r Cais i Amrywio y gwnaethpwyd cais amdano
- Cyflwyno unrhyw amodau, i'r graddau y mae'r Awdurdod yn eu hystyried yn angenrheidiol i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu
- Gwrthod y Cais

## 4.0 GWYBODAETH GEFNDIR

4.1 Ar 11 Ebrill 2017, cafodd yr Awdurdod Trwyddedu gais i Amrywio Trwydded Eiddo presennol. Cyflwynwyd y cais gan Three Feathers Ltd.

4.2 Mae'r Drwydded Eiddo gyfredol yn awdurdodi'r gweithgareddau canlynol:

| GWEITHGAREDD TRWYDDEDIG | DYDDIAU PERTHNASOL | O (AMSER) | HYD |
|---|---|---|---|
| Gwerthu Alcohol (i'w yfed yn yr eiddo ac oddi ar yr eiddo) | Dydd Llun i ddydd Mercher<br>Dydd Iau i ddydd Sadwrn<br>Dydd Sul | 10:00<br>10:00<br>12:00 | 23:00<br>01:00<br>Hanner nos |
| Darparu Cerddoriaeth wedi'i Recordio (Tu Mewn) | Dydd Llun i ddydd Mercher<br>Dydd Iau i ddydd Sadwrn<br>Dydd Sul | 10:00<br>10:00<br>12:00 | 23:00<br>01:00<br>Hanner nos |
| Darparu lluniaeth yn hwyr yn y nos | Dydd Iau i ddydd Sadwrn<br>Dydd Sul | 23:00<br>23:00 | 01:00<br>Hanner nos |
| Oriau Agor yr Eiddo | Dydd Llun i ddydd Mercher | 10:00 | 23:30 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Dydd Iau i ddydd Sadwrn<br>Dydd Sul | 10:00<br>12:00 | 01:30<br>00:30 |

4.3 Mae'r ymgeiswyr rŵan wedi gofyn am ganiatâd i ddarparu'r gweithgareddau trwyddedig canlynol:

| **GWEITHGAREDD TRWYDDEDIG** | **DYDDIAU PERTHNASOL** | **O (AMSER)** | **HYD** |
|---|---|---|---|
| Gwerthu Alcohol (i'w yfed yn yr eiddo ac oddi ar yr eiddo) | Dydd Llun i ddydd Iau<br>Dydd Gwener a dydd Sadwrn | 10:00<br>10:00 | 01:00<br>02:00 |
| Darparu cerddoriaeth fyw (tu mewn yn unig) | Dydd Llun i ddydd Iau<br>Dydd Gwener a dydd Sadwrn | 12:00<br>12:00 | 00:30<br>01:30 |
| Darparu Cerddoriaeth wedi'i Recordio (Tu mewn yn unig) | Dydd Llun i ddydd Iau<br>Dydd Gwener a dydd Sadwrn | 10:00<br>10:00 | 01:00<br>02:00 |
| Darparu lluniaeth yn hwyr yn y nos | Dydd Llun i ddydd Iau<br>Dydd Gwener a dydd Sadwrn | 23:00<br>23:00 | 01:00<br>02:00 |
| Amseroedd ansafonol ar gyfer yr holl weithgareddau trwyddedig uchod | 12:00 hyd 02:00 ar ddydd Sul cyn Gŵyl y Banc, Gŵyl San Steffan a Nos Calan.<br>*Dydd Sul. Yr oriau'n aros fel y nodwyd yn 4.2 uchod ac eithrio'r amod uchod.* | | |
| Oriau Agor yr Eiddo | Dydd Llun i ddydd Iau<br>Dydd Gwener a dydd Sadwrn | 10:00<br>10:00 | 01:30<br>02:30 |

4.4 <u>Deddf Trwyddedu 2003 – gwybodaeth/gofynion</u>

Pan fydd cais yn cael ei gyflwyno am drwydded eiddo, mae'n rhaid rhoi copi llawn i'r Awdurdodau Cyfrifol, sef:

- Yr Heddlu
- Gwasanaeth Tân ac Achub
- Cynllunio
- Safonau Masnach
- Iechyd yr Amgylchedd
- Iechyd a Diogelwch
- Gwasanaethau Plant
- Awdurdod Iechyd
- Awdurdod Trwyddedu

4.5 <u>Hysbysiad Cyhoeddus</u>

Rhaid i'r ymgeisydd hefyd osod hysbysiad mewn papur newydd lleol a rhoi hysbysiad ar yr adeilad neu wrth ei ymyl. Bydd hyn yn galluogi unigolion, corff neu fusnes i gyflwyno sylwadau perthnasol. Ond, bydd yn rhaid iddynt ddangos bod eu sylwadau yn ymwneud â hyrwyddo un neu fwy o'r amcanion trwyddedu.

4.6 Sylwadau Perthnasol

Derbyniwyd sylwadau sydd, ym marn Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai, yn berthnasol mewn perthynas â'r cais o fewn y cyfnod statudol o 28 diwrnod.

4.6.1 Mae pum sylw ysgrifenedig wedi dod i law gan bartïon sydd â diddordeb mewn ymateb i'r hysbysiad cyhoeddus. Mae'r sylwadau'n ymwneud â niwsans sŵn / ymddygiad gwrthgymdeithasol a throsedd ac anhrefn. Mae manylion y sylwadau wedi eu hanfon at yr Ymgeiswyr a gellir gweld copi yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

4.6.2 Er bod y swyddogion yn barod i hwyluso canoli rhwng partïon ac yn cynnig hyn fel opsiwn, lle y bo'n briodol, ar adeg llunio'r adroddiad hwn, nid oes cytundeb wedi ei sicrhau rhwng y partïon i gymryd rhan mewn unrhyw ganoli o'r fath. Mae'r ymgeiswyr wedi dangos parodrwydd i gymryd rhan mewn canoli drwy gydol y broses ymgeisio.

4.6.3 Cyn i'r cais gael ei gyflwyno, roedd yr ymgeiswyr wedi cael trafodaethau hir gyda Heddlu Gogledd Cymru, a lluniwyd nifer o amodau a ddyluniwyd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ymhellach a'u hymgorffori yn yr Atodlen Weithredu. Mae copi o'r amodau arfaethedig ar gael yn Atodiad B.

4.6.4 Rhan o'r trafodaethau rhwng Heddlu Gogledd Cymru a'r ymgeiswyr, oedd er mwyn gwneud newidiadau i'r amodau presennol sydd ar hyn o bryd yn rhan o'r drwydded eiddo, ac mae'r ymgeiswyr wedi cytuno i hynny ac maent yn rhan o'u cais i amrywio. Mae copi o'r diwygiadau a gytunwyd arnynt ar gael yn Atodiad C. Er eich hwylustod, yr amodau a amlygir yn felyn yw'r amodau presennol i'w dileu, a'r amodau a amlygwyd yn wyrdd yw'r amodau diwygiedig a gytunwyd arnynt.

4.6.5 Gan fod amodau a diwygiadau'r Heddlu (Atodiadau B a C) i'r amodau presennol yn rhan o'r cais gwreiddiol, nid oes angen i'r aelodau ystyried a ydynt yn berthnasol i'w hychwanegu i'r drwydded os bydd Aelodau o blaid cymeradwyo'r cais.

4.6.6 Mae'r ymgeiswyr hefyd wedi ymateb i bryderon trigolion drwy roi ymateb

ysgrifenedig, sydd i’w gael yn Atodiad D.

4.7 **<u>Amcanion Trwyddedu / Canllawiau / Ystyriaethau Polisi</u>**

Mae'r sylwadau perthnasol yn ymrwymo i’r amcanion trwyddedu.

Cyfeirir yr Is-bwyllgor, mewn perthynas â’r cais hwn, at y canllawiau a roddwyd dan Adran 182 Deddf Trwyddedu 2003:

- Atal trosedd **Adran 2.1 i 2.5**
- Atal Niwsans Cyhoeddus **Adran 2.14 i 2.20**

4.8 <u>Datganiad Polisi Trwyddedu</u>

Cyfeirir yr Is-bwyllgor, mewn perthynas â’r cais, at Ddatganiad Polisi Trwyddedu’r Cyngor:

- Atal Trosedd ac Anrhefn **Adran 3.1**
- Atal Niwsans Cyhoeddus **Adran 3.3**

4.9 Yn olaf, atgoffir yr aelodau hefyd bod rhaid iddynt ystyried y canlynol wrth wneud penderfyniad ynglŷn â’r cais yn unol â’r Ddeddf Trwyddedu -

- Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 sy’n rhoi dyletswydd arno i atal/lleihau trosedd ac anhrefn yn yr ardal
- Reolau cyfraith gyffredin cyfiawnder naturiol
- Darpariaethau Deddf Hawliau Dynol 1998

5.0 **SYLWADAU’R SWYDDOGION**

5.1 Mae’r Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd wedi cyflwyno’r sylwadau canlynol i gynorthwyo Aelodau gyda’u hystyriaethau.

5.2 Mae’n ofynnol i gyflwyno amserlen weithredu gyflawn ar gyfer Trwyddedau Eiddo newydd ac am amrywio Trwyddedau Eiddo. Gall aelodau archwilio’r camau ychwanegol a gynigir fel rhan o’r cais hwn yn atodiad Atodiad E.

5.3 O ystyried y pryderon a godwyd gan y partïon cysylltiedig, bydd Aelodau yn dymuno cwestiynu’r Ymgeiswyr (neu eu cynrychiolwyr) i ganfod y bydd dulliau ataliol yn cael eu defnyddio i liniaru unrhyw bryderon gan y partïon cysylltiedig.

5.4 Atgoffir Aelodau, o fis Hydref 2012, pan ddaeth Deddf Cerddoriaeth Fyw i rym, mae’r gofyniad trwyddedu ar gyfer cerddoriaeth fyw rhwng 08:00 ac

23:00 wedi'i dynnu'n ôl mewn rhai sefyllfaoedd penodol. Er gwybodaeth i'r Aelodau, mae Adran 15 y Canllawiau ar y Ddeddf Drwyddedu yn diffinio'r eithriadau hyn.

6.0 **CRYNODEB**

6.1 Dylai Aelodau ystyried y Canllawiau a Datganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor yn ofalus, yn arbennig o ran y meysydd a amlygir yn yr adroddiad hwn. Atgoffir Aelodau mai ar sail tystiolaeth/rheswm da yn unig y dylid gwyro oddi wrth y Polisi.

6.2 Bydd yn rhaid i Aelodau benderfynu p'un ai yw cymeradwyo'r cais hwn fel y'i cyflwynir, yn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu yn arbennig o ran atal niwsans cyhoeddus a throsedd ac anhrefn.

6.3 Yn sgil y sylwadau sydd wedi dod i law, bydd yr Aelodau yn dymuno ystyried y cais hwn i Amrywio Trwydded Eiddo yn ofalus.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag